## Teulu Bethania

**Darllen Luc 10, 38–42; 15, 11–32**

Gwyddom i Iesu ymweld â llawer o gartrefi. Bu'n aros dan gronglwyd mam-yng-nghyfraith Simon Pedr yng Nghapernaum a bu'n cael pryd o fwyd yng nghwmni'r pen-publican o Jericho, Sacheus. Ond gwyddom am un teulu y meddyliai Iesu lawer ohonynt, a hwnnw oedd y teulu bach o Fethania, pentref ar gyrion tref Jerwsalem. Gwyddom iddo letya yno yn ystod wythnos olaf ei fywyd, a'i fod yn hoff iawn o gymdeithas Mair a Martha a Lasarus. Onid ef a roddodd anadl yn ôl yn ffroenau Lasarus?

Yn ôl Luc, y mae Iesu yn galw un tro ym Methania, ac yn cael derbyniad cynhyrfus gan Martha, am fod Mair yn tueddu i roddi'r cwbl o'r neilltu er mwyn gwrando ar sgwrs y Crist. Disgrifir Martha yn berffaith: 'Ond Martha oedd drafferthus ynghylch llawer o wasanaeth'. Roedd hi'n anfodlon iawn bod Mair yn eistedd i sgwrsio â Iesu, a gadael iddi hithau hulio'r bwrdd ar gyfer y pryd bwyd. Dyma hi'n mynegi ei phrotest drwy godi ei llais mewn tymer ddrwg. Dysgodd Iesu wersi pwysig i'r teulu, a phob teulu arall: yr angen i ni fod yn oddefgar o'n gilydd; a'r ffaith ein bod yn aml yn tueddu i anghofio materion pwysicach o lawer wrth ymdrafferthu ynglŷn â manion bethau.

Ni fedr teulu dyn na theulu Duw fyw heb oddefgarwch o bob tu. Os mynnir ennill cariad a chydweithrediad plentyn, dylai rhieni geisio deall ei agwedd a bod yn oddefgar wrth yr agwedd honno. Yn yr un modd mae'n rhaid i'r plant a'r ifanc gofio y disgwylir goddefgarwch oddi wrthynt hwythau pan eir ati i drafod pynciau a safonau a goleddir gan eu rhieni. Heb hyn, dim ond anghydfod sydd i'w ddisgwyl. Pwysleisiodd Iesu fod pob un o gymeriadau teulu bach Bethania yn dwyn cysur mawr iddo bob amser. Martha oedd mor ymarferol, Mair oedd mor sensitif, a Lasarus oedd mor oddefgar. Diolch amdanynt.

***D. Ben Rees***